






Defnyddio Llwyfan Torfoli Llyfrgell Genedlaethol Cymru


ADRAN A: CYCHWYN



1	<p>Agorwch porwr y we a theipiwch <i>torf.llyfrgell.cymru</i> yn y bar cyfeiriad, yna gwasgwch Enter.</p> <p><small>ano</small> Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn eich annog i ddefnyddio fersiwn diweddar o borwr gwe modern fel Firefox, Chrome neu Safari pan yn cyfrannu i'r llwyfan yma.</p>	
2	<p>Dewiswch yn y gornel dde uchaf ym mha iaith yr hoffech gyfrannu</p> 	
3	<p><u>Cyn cychwyn cyfrannu:</u> Os ydych yn ymweld â'r safle am y tro cyntaf bydd angen i chi gofrestru trwy glicio ar y ddolen Cofrestru yng nghornel dde uchaf y sgrin, yna dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin nesaf i greu cyfrif. Os ydych yn dychwelyd i'r safle, medrwch gychwyn ar y gwaith yn syth trwy glicio ar Mewngofnodi a nodi manylion eich cyfrif.</p>	
4	<p>Ar y dudalen nesaf medrwch ddewis pa gerdyn yr hoffech ei anodi trwy glicio ar y cerdyn neu, os ydych yn dychwelyd i'r safle, medrwch barhau gyda cerdyn rydych eisoes wedi cychwyn ei anodi.</p> <p>Mae'r cylch yng nghornel dde isaf y ffoto yn dynodi ei statws:</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'r cylch gwyrdd yn dynodi bod anodiadau ar gyfer y cerdyn yma wedi eu cwblhau;• Mae'r cylch melyn yn dynodi bod rhywun wedi cychwyn anodi'r cerdyn yma, ond nid yw wedi ei gwblhau;• Os nad oes cylch o dan y cerdyn, nid oes gwaith wedi cychwyn ar y cerdyn yma.	








Os ydych am weithio ar gerdyn sydd heb ei anodi ewch i **Adran B**.


Os ydych am olygu cerdyn sydd eisoes wedi ei anodi yn rhannol ewch i **Adran C**.

ADRAN B: ANODI CERDYN AM Y TRO CYNTAF

	<p>Mae'r cardiau wedi eu trefnu fesul hwiangerdd A-Y. Mae'r cardiau wedi cael eu trefnu yn nhrefn y wyddor gyda llythyren gyntaf yr hwiangerdd ar dop y cerdyn ar y dde: 'A, B, C' ac ati. <u>Nid</u> oes angen nodi hyn wrth drawsgrifio.</p> <p>Mae'r Hwiangerddi wedi cael eu casglu o bedwar cyhoeddiad y cyfeirir atynt fel HH / HW / HC / YH. Gweler isod am fanylion a dolen at gopi digidol o'r llyfrau:</p> <p>HH - J. Ceiriog Hughes, 'Hen Hwian-gerddi', Oriau'r Haf (Wrecsam: Hughes a'i Fab, [1870]), https://torf.llyfrgell.cymru/s/hwiangerddi/collections/view/60464/59721</p> <p>HW – 'Hwiangerddi'r Wlad' (Eluned Bebb) Llyfrau'r Dryw. Gorff 1942. https://torf.llyfrgell.cymru/s/hwiangerddi/collections/view/60464/59722</p> <p>HC – 'Hwian Gerddi Cymru' Casglwyd gan Owen M Edwards, Argraffwyr R E Jones a'i frodyr Conwy (120 o eitemau) Darluniau gan Winifred Hartley (Lowri Wynn) Llanuwchllyn Ac Owen. https://torf.llyfrgell.cymru/s/hwiangerddi/collections/view/60464/59720</p> <p>YH – 'Yr Hwiangerddi' casglwyd gan Owen M Edwards . Edwards, O. M. (1911), Yr Hwiangerddi (Llanuwchllyn: Ab Owen). https://torf.llyfrgell.cymru/s/hwiangerddi/collections/view/60464/59723</p>	
<p>1</p>	<p>Cliciwch ar y cerdyn yr hoffech ei anodi.</p> <p>Dewiswch un o'r tasgau. Medrwc hofran ar y marciau cwestiwn am ganllawiau.</p> <div data-bbox="891 1050 1205 1305"> <p>Trawsgrifio hwiangerdd unigol ?</p> <p>Nodwch enw lle yn yr hwiangerdd ?</p> <p>Arall ?</p> </div>	<p>Medrwc ddefnyddio'r arwyddion '+ ' a '- ' neu'r olwyn ar eich llygoden i sgrolio i mewn ac allan.</p> 

<p>2 <u>Trawsgrifio hwiangerdd unigol:</u> Llusgwch y blwch coch ar draws ac addaswch ei faint fel ei fod yn amlinellu y pennill rydych am ei drawsgrifio (noder y gall fod mwy nag un pennill ar y cerdyn – amlinellwch un pennill ar y tro). Cliciwch ‘Arbed’ o dan y blwch. Nodwch yn y blychau testun ar y dde y gwybodaeth a welwch ar, neu o gwmpas, y pennill. Mae angen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi ffynhonnell y pennill (HH / HW / HC / YC) • Nodi’r rhif neu’r dudalen, e.e. XXI neu 21 (heb gromfachau, na Rh. na t.) • Trawsgrifio’r pennill (gan roi ôlslaes ‘\` ar ddiwedd pob llinell); • Cofnodi pob gwybodaeth arall am y pennill a welwch ar y cerdyn. <p>Pan fyddwch wedi gorffen, cliciwch ar Nesaf > ac yna ar y botwm coch Arbed (sylwer na fydd eich anodiadau wedi eu harbed nes i chi wasgu’r botwm yma).</p> <p>Cliciwch ar “Parhau i anodi’r eitem yma” i symud ymlaen i’r dasg nesaf: Mae angen disgrifio pob pennill sydd ar y dudalen.</p>	
<p>3 <u>Nodi enw lle yn yr hwiangerdd:</u> Rydym am gofnodi enwau lleoedd o fewn yr hwiangerddi. Llusgwch y blwch coch ac addaswch ei faint fel ei fod yn amlinellu enw lle. Cliciwch ‘Arbed’ o dan y blwch.</p> <p>Teipiwch yr enw yn y blwch. Bydd y system yn cynnig enwau lleoedd – dewiswch yr enw cywir o’r rhestr.</p> <p>Cliciwch ar Nesaf > ac yna ar y botwm coch Arbed.</p> <p>Nawr medrwch: ail-adrodd y camau uchod (os oes mwy nag un enw lle yn yr hwiangerdd), trwy glicio ar “Parhau i anodi’r eitem yma”; neu symud ymlaen i’r dasg nesaf.</p>	 <p>A hoffech ychwanegu un arall?</p> <p>Parhau i anodi’r eitem/tudalen yma</p>

<p>4 <u>Arall:</u></p> <p>Teitl - Os oes teitl ar frig y cerdyn, nodwch ef yma. Os nad oes teitl, gadewch y blwch yn wag.</p> <p>Atgofion – Nodwch yma unrhyw atgofion personol sydd gennych am yr hwiangerdd.</p>	<p>Teitl y cerdyn </p> <input data-bbox="1467 287 1825 327" type="text"/> <p>Cofnodwch unrhyw atgofion personol am yr hwiangerdd. </p> <input data-bbox="1467 399 1825 454" type="text"/>
<p>5 <u>Tip:</u></p> <p>Os na fedrwch weld y cerdyn yn glir am fod nifer o flychau anodi ar hyd y cerdyn, cliciwch y botwm togll yng nghornel uchaf chwith y ffoto – bydd hyn yn cuddio'r blychau.</p>	
<p>6 <u>Cwblhau:</u></p> <p>Pan fyddwch wedi gorffen cofnodi pob un o'r penillion, cliciwch y botwm ar y dde ar waelod y sgrin – Wedi ei gwblhau - i ddynodi bod y dudalen wedi ei chwblhau. Bydd hyn yn newid ei statws i wyrdd (Wedi ei gwblhau).</p> <p>Sylwer nad yw'r nodwedd llyfrnodi yn gweithio ar hyn o bryd. Ymddiheurwn am hyn.</p>	<p> Llyfrnodwyd</p> <p> Fflagio fel anaddas</p> <p> Wedi ei gwblhau</p>
<p>7 <u>Gweld yr anodiadau:</u></p> <p>Mae'r anodiadau yn cael eu harddangos fel bawdluniau yn union islaw'r cerdyn.</p>	

<p>2</p>	<p>Islaw'r cerdyn fe welwch fawdluniau sy'n cynrychioli'r anodiadau sydd eisoes wedi eu creu. Cliciwch ar yr anodiadau er mwyn i chi fedru darllen y testun (ar ochr dde y dudalen). Os oes angen golygu'r testun, cliciwch ar</p> <p>Mae angen mwy o waith ar y tudalen, yna</p> <p>Heb ei gwblhau</p> <p>a bydd deialog newydd yn ymddangos gyda botwm < Golygu.</p> <p>< Golygu</p> <p>Cliciwch ar y botwm yma i olygu'r anodiadau, yna cliciwch Nesaf > ac yna'r botwm coch Arbed pan fyddwch wedi gorffen.</p> <p>Os byddwch yn gorffen anodi pob elfen o fewn y cerdyn medrwrch ddefnyddio'r botwm ar y dde ar waelod y sgrin i ddynodi bod y tudalen Wedi ei gwblhau, fel yng ngham 6 yn Adran B uchod.</p>	<p>Anodiadau gan ddefnyddwyr</p> <p>Crewyd yr anodiadau yma gan y gymuned, mae'n bosib y bydd angen gwaith ychwanegol i'w cwblhau.</p>  <p>Crewyd gan Gwyneth Davies, mis yn ôl [cy]</p>
<p>3</p>	<p>Os na fedrwrch weld y cerdyn yn glir am fod nifer o flychau anodi ar hyd y cerdyn, cliciwch y botwm togl yng nghornel uchaf chwith y ffoto – bydd hyn yn cuddio'r blychau.</p>	